***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, ATODLEN 2. (See end of Document for details)*

ATODLEN 2

*(a gyflwynir gan adran 5)*

TALU

## RHAN 1

CYFRIFO ARDOLL A THALU

1 Caiff ardoll sy'n cael ei gosod ar gigyddwr neu allforiwr ei chyfrifo'n unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I2** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

2 Mae ardoll yn cael ei chyfrifo drwy adio'r gwahanol elfennau canlynol at ei gilydd yn achos pob anifail a gigyddir neu a allforir—

(a) yr elfen gynhyrchu, a

(b) yr elfen gigydda neu allforio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I4** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

3 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, bennu cyfradd yr elfen gynhyrchu a'r elfen gigydda neu allforio.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu gwahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol achosion (gan gynnwys gwahanol ddisgrifiadau o gigyddwr neu allforiwr a gwahanol ddisgrifiadau o anifail).

(3) Caiff y cyfraddau a bennir o dan y paragraff hwn gynnwys cyfradd o ddim, ond ni chânt fod yn uwch na'r cyfraddau uchaf a nodir yn yr Atodlen hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 2 para. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I6** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

4 At ddibenion y tablau a welir yn y paragraffau sy'n dilyn—

(a) mae llo yn anifail sy'n llai na chwe mis oed (yn achos anifail a allforir) neu anifail sydd a'i bwysau wedi iddo gael ei baratoi ar ôl ei gigydda yn llai na 68kg (yn achos anifail a gigyddwyd), a

(b) nid yw cyfeiriad at "wartheg" yn cynnwys lloi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 2 para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I8** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

*Cyfradd uchaf yr elfen gynhyrchu*

5 Ni chaiff yr elfen gynhyrchu ar gyfer pob anifail unigol fod yn uwch na'r cyfraddau uchaf sydd wedi eu nodi yn y tabl canlynol—

| **[**F1 *Yr Anifail* | *Cyfradd uchaf yr elfen gynhyrchu ar gyfer pob anifail* |
|---|---|
| Gwartheg | £6.91 |
| Lloi | £0.50 |
| Defaid | £1.00 |
| Moch | £1.67**]** |

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Atod. 2 para. 5 Table wedi ei amnewid (1.4.2012) gan Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/2946), ergl. 1, **2(1)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 2 para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I10** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

*Cyfradd uchaf yr elfen gigydda neu allforio*

6 Ni chaiff yr elfen gigydda neu allforio ar gyfer pob anifail unigol fod yn uwch na'r cyfraddau uchaf sydd wedi eu nodi yn y tabl canlynol—

| **[**F2 *Anifail* | *Cyfradd uchaf yr elfen gigydda neu allforio ar gyfer pob anifail)* |
|---|---|
| Gwartheg | £ 2.12 |
| Lloi | £ 0.50 |
| Defaid | £ 0.32 |
| Moch | £ 0.40**]** |

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Atod. 2 para. 6 Table wedi ei amnewid (1.4.2012) gan Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/2946), erglau. 1, **2(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. 2 para. 6 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I12** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, ATODLEN 2. (See end of Document for details)*

## RHAN 2

### DYDDIADAU TALU

*Talu'r ardoll gan gigyddwyr ac allforwyr*

7 Rhaid i gigyddwr neu allforiwr dalu ardoll sy'n cael ei gosod mewn perthynas â gwartheg, defaid neu foch y gellir codi ardoll amdanynt mewn unrhyw fis o fewn 15 niwrnod i ddiwedd y mis hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 2 para. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I14** Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, ATODLEN 2.